



# Capel y Traeth ar Waith

[www.capelytraeth.com](http://www.capelytraeth.com)

Rhif79

Medi 2017

03	Parch R.E. Hughes	Mrs Morfudd Jones
10	Parch Deian Evans	Mrs Megan Jones
17	Parch Iwan Ll. Jones (J)	Mrs Elisabeth Bebb
24	Parch Iwan Ll. Jones (J)	Mrs Beryl Rogers

05	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
12	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
12	Cyfarfod y Chwiorydd yn y Festri 1.30
18	Taith Gerdded i Feddgelert a Rhyd Ddu
19	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
19	Y Gymdeithas yn y Festri 7.15 Gareth Neigwl Williams - R.S.Thomas
26	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
29	Bore Coffi MacMillan 10.00 – 12.00

Llywydd y mis: Catrin Codd  
 Croesawu: Capel y Traeth  
 Ymweld: Mair ac Eryl  
 Glanhau: Catrin ac Eira Eastwood

## 'A Blackbird Singing' R.S. Thomas

It seems wrong that out of this bird,  
 Black, bold, a suggestion of dark  
 Places about it, there yet should come  
 Such rich music, as though the notes'  
 Ore were changed to a rare metal  
 At one touch of that bright bill.



**Cofion** Anfonwn ein cofion cynhesaf at bob un ohonoch fel arfer gan obeithio i chi gael mis Awst hapus yng nghwmni teulu a ffrindiau. Deallwn fod Mrs Eleanor Peate wedi bod adref am gyfnod ond yn ôl yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn cofio atoch yn gynnes iawn Mrs Peate.

Mae'n ddrwg gennym ddeall bod Mrs Alwena Roberts wedi cael damwain yn ei chartref ac mae'n aros ar hyn o bryd efo'i merch yn Yr Alban. Rydym yn cofio atoch yn gynnes iawn Alwena.




**Derbyn Aelod** Pleser o'r mwyaf oedd derbyn Dr Peter Harlech Jones yn aelod o'r Eglwys yng Nghapel y Traeth fore Sul

cyntaf mis Awst. Mae Peter yn un o hen deulu Harlech View, ei dad yn frawd i Bessie Harlech Jones ac Enid Meredydd Williams. Mae ef a'i bartner, Michael, yn byw yn Ednyfed, Lôn Felin ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen at ei gwmniaeth a'i gefnogaeth i'r oedfaon a'r gweithgareddau.

**Y Gymdeithas** Bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Ddiwylliadol **nos Fawrth 19 Medi am 7 - 15 yn y Festri, pryd y disgwyliwn Gareth Neigwl Williams atom i roi sgwrs ar R.S.Thomas.** Roedd y gefnogaeth i'r Gymdeithas y llynedd yn ardderchog ac rwy'n siwr eich bod yn edrych ymlaen i weld beth sydd wedi ei drefnu ar eich cyfer eto eleni. £10 fydd y tâl aelodaeth fel arfer.



**Taith Gerdded** Dydd Iau 27 Gorffennaf aeth tri llond car ohonom ar daith o Bont y Pant ,ger Dolwyddelan i Tŷ Mawr Wybrnant. Roedd yn daith o tua 5 milltir a'r tywydd yn braf pan oeddem yn cychwyn ond fe ddaeth y glaw ond ni wnaeth hyn amharu dim ar y pleser o gawsom o ymweld â chartref William Morgan a chael hanes difyr am ei deulu a'i fagwraeth. Cawsom ein harwain ar daith arall ddi-ddorol iawn fore Gwener 18 Awst. Taith oedd hon ar ochr Mynydd y Rhiw ym Mhen Llŷn ac



ymweld â Chapel Galltraeth. Cofiwch am y daith nesaf **ddydd Llun 18 Medi**, pryd y bydd Dafydd Henry yn ein harwain unwaith eto yn ardal Rhyd Ddu a Beddgelert. Rydym yn hynod ddiolchgar i Dafydd am drefnu ac am arwain y teithiau yma.

## Angel Cyllyll (*Knife Angel*)

Un diwrnod yn ystod mis Awst bum i lawr yn yr Amwythig a galw ar y ffordd adref yn y Ganolfan Gwaith Haearn yng Nghroesoswallt a chael fy syfrdanu wrth edrych ar gerflun o angel oedd wedi ei wneud yn gyfan gwbwl allan o gyllyll. Ia wir angel 8 medr o daldra wedi ei wneud allan o 100,000 o gyllyll oedd wedi eu rhoi gan 43 o ganolfannau'r Heddlu yng Nghymru a Lloegr. Rhai wedi eu cymryd oddi ar bobl ac eraill wedi eu derbyn yn ystod ymgyrch *Save Lives Surrender your Knives*. Pwrpas creu'r cerflun oedd i godi ymwybyddiaeth o'r broblem fawr sydd yn ein gwlad o bobl yn ymosod ar ei gilydd ac yn defnyddio cyllyll i anafu a hyd yn oed lladd. Mae'r cerflun wedi ei enwebu ar gyfer derbyn Gwobr Heddwch Rhyngwladol

Y tristwch mwyaf yw bod angen creu y fath gerflun o gwbwl. Gadewch i ni weddio am heddwch yn ein gwlad ein hunain a thrwy'r byd i gyd. Mae pethau erchyll wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf yma. O am gael byd lle gall pawb fyw yn gytûn ac i sylweddoli fel y dywedodd y diweddar Dic Jones yn un o'i gerddi –

**'Ni all lladd ennill heddwch.'**

*Gwen Vaughan Hughes*



## Digwyddiadau a dyddiau i'w cofio



**Te Bach Cymreig**  
Cofiwch am y Te Bach  
Cymreig **brynhawn**

**Gwener 25 Awst am 3 o'r gloch yn y Ffestri**. Bydd yr elw yn mynd at Apêl Corwynt Cariad.

**Drws Agored** Cofiwch fod y drws yn agored bob **bore Mawrth rhwng 10 a 11.30 tan y bore Mawrth cyntaf ym mis Hydref**. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn dda iawn ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r selogion sydd yn dod bob bore Mawrth am sgwrs felys a phaned dda.



## Bore Coffi MacMillan

Rydym wedi cynnal y boreau coffi yma ers rhai blynyddoedd bellach ac mae'r gefnogaeth wedi bod yn ardderchog bob tro. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni eto eleni **fore Gwener 29 Medi, 10 – 12 o'r gloch**

# Diwrnod Agored y Bâd Achub



## Y Clwb Sul

Rydym yn edrych ymlaen at ddod at ein gilydd unwaith eto ar ddechrau



tymor arall o gymdeithasu a dysgu am Iesu Grist. Edrychwn ymlaen hefyd at fod yn rhan o rai o'r Gwasanaethau yn y Capel.

Bu rhai o'r plant yn helpu i godi arian at y Bâd Achub yn ystod yr Haf, drwy werthu teganau, peintio wynebau a phlethu gwalltiau ac yn y blaen. Roedd hyn yn brofiad da iddynt ac mae'n braf gweld eu bod yn fodlon cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn gwneud iddynt sylweddoli pwysigrwydd helpu eraill.

